Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cytundeb Ymadael) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **02 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**SO30C** – Hysbysiad mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodwyd gerbron y Senedd.

**Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cytundeb Ymadael) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau i'r canlynol:

<u>Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Ddomestig</u>

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012

Rheoliadau Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2019

**Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sydd i raddau helaeth yn dod o fewn gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chynllun masnachu carbon a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth.

**Diben y gwelliannau**

Mae Rheoliadau 2020 yn cefnogi ymadawiad esmwyth o gynllun System Masnachu Allyriadau yr UE, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 96 o'r Cytundeb Ymadael. Maent yn gwneud hynny drwy sicrhau sail ddeddfwriaethol briodol i gwmnïau y DU gyflawni eu rhwymedigaethau cydymffurfio mewn perthynas â blwyddyn 2020 y cynllun, sy'n ddyledus yn 2021. Bydd yr Offeryn Statudol hefyd yn deddfu Erthygl 9 ac Atodiad 4 o Brotocol Gogledd Iwerddon drwy ddarparu sail barhaus i gynhyrchwyr trydan yng Ngogledd Iwerddon aros yn System Masnachu Allyriadau yr UE.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant, ar gael yma: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1369/contents/made

**Pam y rhoddwyd caniatâd**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau hyn i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl i'r DU adael yr UE, drwy ddiwygio neu ddirymu darpariaethau a fyddai fel arall yn amhosibl i'w gweithredu.